Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair Gweinidogol ar y Cyd | 4 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Cefndir | 8 |
| Blaenoriaeth Genedlaethol Un: Tyfu ein Heconomi | 11 |
| Blaenoriaeth Genedlaethol Dau: Gwneud Pethau'n Gliriach | 15 |
| Blaenoriaeth Genedlaethol Tri: Cymryd Rhan a Chamu Ymlaen | 19 |
| Blaenoriaeth Genedlaethol Pedwar: Partneriaethau Cryf | 24 |
| Blaenoriaeth Genedlaethol Pump: Cefnogi Addysgwyr a Darparwyr Hyfforddiant | 28 |
| Y Camau Nesaf | 32 |



© Hawlfraint y Goron 2026


WG54122
ISBN Digidol 978-1-83745-224-8









## Rhagair Gweinidogol ar y Cyd

Mae'n bleser gennym gyhoeddi'r Cyfeiriad Strategol hwn ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG), sy'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth AHG yng Nghymru.

Mae dysgu galwedigaethol yn cefnogi dysgwyr gydol oes — gan gynnwys cyn-16, Addysg Bellach, Addysg Uwch, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion. Credwn y dylai pawb gael y cyfle i fanteisio ar lwybrau galwedigaethol a'u cwblhau, i ennill sgiliau newydd, ac i gyfrannu at economi gadarn a chynaliadwy. Ein gweledigaeth yw cael system lle mae llwybrau galwedigaethol yn weladwy, yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi. Yn rhy aml, nid yw llwybrau galwedigaethol a llwybrau academaidd yn cael eu hystyried yn gyfartal; mewn gwirionedd, mae'r naill a'r llall yn cynnig dilyniant clir i ddysgu ar lefel uwch, uwchsgilio a chyflogaeth.

Mae'r ddogfen hon yn nodi pum blaenoriaeth genedlaethol rhyng-ddibynnol ar gyfer AHG. Mae pob blaenoriaeth yn amlinellu'r heriau allweddol, yn tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid - gan gynnwys Medr a Cymwysterau Cymru - ac yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol i gyflawni'n huchelgeisiau cyffredin.

Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn hefyd yn cefnogi nod Cymraeg 2050 o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Drwy wreiddio darpariaeth Gymraeg ar draws llwybrau galwedigaethol, bydd cyfle i ddysgwyr ddysgu a gweithio yn ddwyieithog, gan helpu i sicrhau system gynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwlad ddwyieithog.

Mae AHG yn rhan annatod o sector trydyddol ehangach Cymru. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rydym wedi nodi pum her bwysig sy'n wynebu'r sector ac, ym mis Ionawr 2026, rydym wedi cyhoeddi papur tystiolaeth manwl a lansio galwad am gyflwyniadau. Mae'r Cyfeiriad Strategol ar gyfer AHG yn ategu'r broses hon a bydd yn elfen allweddol o'r adolygiad ehangach hwn o addysg drydyddol. Gyda'i gilydd, bydd y dystiolaeth hon yn cynnig darlun cliriach o'r pwysau a'r cyfleoedd ar draws y system, gan helpu i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni'r Cyfeiriad Strategol ar gyfer AHG, mae hi wedi bod yn ofynnol cydlynu'n ofalus ar draws pob un o'n pedwar portffolio Gweinidogol, a bydd angen parhau i wneud hynny. Trwy ein Bwrdd Gweinidogol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, rydym gyda'n gilydd wedi ystyried y materion strategol a thrawsbynciol sy'n sail i'r ddogfen hon.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'n grŵp cyfeirio rhanddeiliaid, ac yn ehangach gyda'r sector, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr a'r undebau llafur. Maent wedi chwarae rhan hanfodol wrth lywio a llunio'r strategaeth hon. Estynnwn ein diolch diffuant i'r aelodau, ac i'r holl unigolion a'r sefydliadau y mae eu harbenigedd a'u dealltwriaeth wedi siapio'r gwaith hwn. Mae eu cyfraniadau wedi sicrhau bod ein dull gweithredu yn adlewyrchu anghenion a dyheadau amrywiol dysgwyr, y sector, cyflogwyr a chymunedau ledled Cymru.

Gyda'n gilydd, gallwn greu gweithlu medrus, hyderus a ffyniannus sy'n barod i wynebu heriau a chyfleoedd economi fyd-eang sy'n newid yn gyflym.



# Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (AHG) ar bob lefel, gan gynnwys cyn-16, Addysg Bellach, Addysg Uwch, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion, yn gatalydd ar gyfer gwydnwch economaidd a chystadleurwydd.  Mae'n cyflenwi unigolion a chymunedau â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu mewn economïau lleol, cenedlaethol a byd-eang sy'n fwy a mwy deinamig.

Roedd Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ym mis Mehefin 2025 yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cryfhau'r ddarpariaeth AHG yng Nghymru yn benodol.  Roedd y datganiad hwnnw'n cynnwys amcanion i gefnogi'r agenda gyfranogi ehangach drwy greu llwybrau mwy hygyrch a hyblyg i bob dysgwr.  Dywedodd hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod AHG yn cyd-fynd yn agosach â'r agenda sgiliau ehangach, gan gefnogi sectorau blaenoriaethol economi Cymru yn uniongyrchol, ymateb i anghenion cyflogwyr, a chyfrannu at y gwaith o greu swyddi gwyrdd.

Er mwyn cyfrannu at yr agenda hon, mae Bwrdd Gweinidogol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol wedi cael ei sefydlu.  Mae'n casglu ynghyd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol i fabwysiadu dull gweithredu ar lefel system sy'n ystyried materion strategol a thrawsbynciol, gan gynnwys datblygu'r Cyfeiriad Strategol hwn.

Yn ogystal, sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r sector gan gynnwys Estyn, Medr, Cymwysterau Cymru, Gyrfa Cymru, Prifysgolion Cymru, ColegauCymru, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.  Mae swyddogion hefyd wedi holi barn rhanddeiliaid eraill yn helaeth, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Addysg Oedolion Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) Cymru, a Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru.

Ym mis Tachwedd, cyflwynwyd Datganiad Llafar i'r Senedd gan y Gweinidog Addysg Uwch a Phellach yn nodi pum her bwysig sy'n wynebu sector addysg drydyddol Cymru.  Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi papur tystiolaeth manwl ac wedi lansio Galwad am Gyflwyniadau ar 21 Ionawr 2026. Ochr yn ochr â hyn, mae Grŵp Cynghori Gweinidogol sy'n cynnwys rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector wedi cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol yn 2025-26 a thu hwnt, gan gynnwys mewn perthynas ag AHG.

## Blaenoriaethau Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru

Mae'r cyfeiriad strategol hwn yn nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol cydgysylltiedig canlynol, sy'n cyfleu uchelgais y gwaith hwn. Mae'r blaenoriaethau hyn yn diffinio cyfeiriad strategol ar y cyd ar gyfer AHG yng Nghymru, a fyddai'n llywio polisïau yn y dyfodol. Nod y dull gweithredu cyffredin hwn yw darparu eglurder a chefnogi cysondeb rhwng partneriaid ar draws y system AHG, gan gynnwys Medr, Cymwysterau Cymru a Gyrfa Cymru. Mae'r cyfeiriad strategol yn egluro pwysigrwydd pob blaenoriaeth, yn tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma gan bartneriaid yng Nghymru, ac yn eiriol dros gyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

### Dyma'r Blaenoriaethau Cenedlaethol:

**BLAENORIAETH GENEDLAETHOL UN**
Tyfu ein Heconomi

**BLAENORIAETH GENEDLAETHOL DAU**
Gwneud Pethau'n Gliriach

**BLAENORIAETH GENEDLAETHOL TRI**
Cymryd Rhan a Chamu Ymlaen

**BLAENORIAETH GENEDLAETHOL PEDWAR**
Partneriaethau Cryf

**BLAENORIAETH GENEDLAETHOL PUMP**
Cefnogi Addysgwyr a Darparwyr Hyfforddiant

## Cefndir

Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn yn seiliedig ar Genhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru ac uchelgeisiau'r Pedwar Diben Addysg. Mae'r Genhadaeth a'r Dibenion yn rhannu'r dyhead o Gymru ffyniannus, deg a chynaliadwy. Mae'r Genhadaeth Economaidd yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer datblygu tirwedd economaidd Cymru. Yn y weledigaeth hon, mae AHG yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hybu cynhyrchiant ac arloesedd, ar yr un pryd â helpu unigolion a chymunedau i ffynnu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Mae'r Genhadaeth Economaidd yn nodi pedwar prif faes blaenoriaeth:

- Pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd: Manteisio ar amgylchedd naturiol Cymru i gefnogi twf busnesau a symud at sero net.
- Platfform i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant: Cefnogi pobl ifanc i gael dyfodol uchelgeisiol, gan roi blaenoriaeth i'w sgiliau a'u creadigrwydd, a thargedu cymorth i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.
- Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'n heconomi bob dydd: Cydweithio'n rhanbarthol i hybu buddsoddiad, i gefnogi swyddi teg sy'n cydnabod undebau llafur, ac i drechu tlodi.
- Buddsoddi ar gyfer twf: Canolbwyntio ar gryfderau cymharol Cymru i sbarduno buddsoddiad, arloesedd ac entrepreneuriaeth yn y dirwedd sydd ohoni ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn diffinio'r Pedwar Diben Addysg yng Nghymru ac yn crynhoi'r uchelgais y dylid helpu pob dysgwr yng Nghymru i ddatblygu fel:

- Dysgwyr galluog ac uchelgeisiol sy'n mwynhau dysgu, yn gosod nodau uchel iddyn nhw eu hunain, ac yn barod i barhau i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n defnyddio eu dychymyg, yn datrys problemau ac yn cymryd rhan weithredol mewn bywyd a gwaith.
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n deall eu cyfrifoldebau, yn parchu eraill, ac yn ymwneud yn feddylgar â'u cymunedau a'r byd ehangach.
- Unigolion iach a hyderus sy'n wydn, yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn barod i fyw bywydau cyflawn.

Gyda'i gilydd, dyma'r 'llinyn aur' sy'n sail i'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodir yn y ddogfen hon, gan greu system sy'n paratoi dysgwyr nid yn unig ar gyfer byd gwaith ond ar gyfer llwyddiant gydol oes, gan gefnogi economi arloesol, gynhwysol a chynaliadwy ar yr un pryd. Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol hefyd yn cael eu hatgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i weithio tuag at lesiant, cynaliadwyedd a chydraddoldeb hirdymor.

Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol hefyd yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sydd â'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Drwy wreiddio darpariaeth Gymraeg ar draws llwybrau galwedigaethol, byddwn yn creu cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu, gweithio a ffynnu yn y ddwy iaith – gan helpu i ddarparu system wirioneddol gynhwysol sy'n adlewyrchu anghenion cenedl ddwyieithog.

Er mwyn sicrhau bod cynhwysiant wedi'i wreiddio ym mhob agwedd ar gyflawni, bydd y dull gweithredu wedi'i seilio'n gadarn ar egwyddorion sy'n seiliedig ar hawliau, sy'n cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu ar Anabledd a'r fframwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol yn defnyddio canfyddiadau dau adroddiad allweddol – yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru, (Medi 2023) a Phontio i Fyd Gwaith, (Mehefin 2023) – ac maent wedi'u cynllunio i ymateb i'w hargymhellion (yr oedd nifer ohonynt ar gyfer Medr a Cymwysterau Cymru). Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hynny ar draws pob un o'r blaenoriaethau cenedlaethol.

Roedd mis Medi 2025 yn foment dyngedfennol i addysg yng Nghymru, wrth i'r garfan gyntaf o ddysgwyr ymuno â Blwyddyn 10 o dan y Cwricwlwm diwygiedig i Gymru a dechrau ar eu taith at y cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd. Mae'r garreg filltir hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i system addysg lle mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu bod yn ddiogel ac yn cymryd rhan, a bod ganddynt y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen i addysg bellach a byd gwaith. Mae dysgu galwedigaethol yn chwarae rhan hanfodol yn y system hon. Dylai codi proffil Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ddechrau mewn ysgolion. I rai dysgwyr bydd Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn gam naturiol nesaf, gan adeiladu ar y Cwricwlwm i Gymru i ddarparu llwybrau cynhwysol sy'n galluogi dysgwyr o bob oed i symud yn hyderus i ddysgu pellach, gwaith medrus, a datblygiad gydol oes.



**Blaenoriaeth Genedlaethol Un:** Tyfu ein Heconomi

***I sbarduno system addysg a hyfforddiant galwedigaethol sy'n barod ar gyfer y dyfodol, ac sy'n cyflenwi dysgwyr â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer marchnad lafur sy'n datblygu'n gyflym, gan gryfhau cynhyrchiant, cystadleurwydd a thwf economaidd yn uniongyrchol. Yn unol â Chenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru a sectorau â blaenoriaeth Cymru, dylem geisio grymuso unigolion i adeiladu Cymru gryfach, decach a gwyrddach drwy dwf cynhwysol, arloesedd a gwydnwch.***

## Pam mae 'Tyfu ein Heconomi' yn Flaenoriaeth Genedlaethol ar gyfer AHG yng Nghymru?

Mae AHG ar bob lefel, gan gynnwys cyn-16, Addysg Bellach, Addysg Uwch, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion, yn gatalydd ar gyfer gwydnwch economaidd a chystadleurwydd, gan gyflenwi unigolion a chymunedau â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu mewn economïau lleol, cenedlaethol a byd-eang sy'n fwy a mwy deinamig. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosib, rhaid i AHG fod yn gwbl gyson â blaenoriaethau economaidd Cymru. Mae'r cysylltiad rhwng sgiliau a chymwysterau a chanlyniadau economaidd gwell i'r dysgwr a'r economi ehangach wedi'i hen sefydlu. Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ar wybodaeth gan gyflogwyr a dysgwyr yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad lafur, yn hanfodol i gynllunio anghenion sgiliau yn y dyfodol a sicrhau bod cymwysterau'n parhau i ymateb i swyddi sy'n dod i'r amlwg a gofynion y diwydiant, gan gynnwys uwchsgilio'r gweithlu presennol.

Mae Cenhadaeth Economaidd Llywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth ar gyfer trawsnewid tirwedd economaidd Cymru. Mae Strategaeth Ddiwydiannol y DU yn ategu'r angen am weithlu medrus a hyblyg, gan gynnwys datblygu sgiliau lefel uwch, sy'n sbarduno cynhyrchiant ac arloesedd.  Mae'r dirwedd yn gymhleth ac yn datblygu'n gyflym. Efallai nad y sgiliau sydd eu hangen heddiw yw'r rhai fydd eu hangen yfory. Rhaid i AHG fod yn ystwyth, yn hygyrch ac yn ymatebol i bob dysgwr, gan gwmpasu darpariaeth cyn-16, darpariaeth drydyddol, hyd at ddysgu gydol oes.

## Heriau

- Mae argaeledd presennol ffynonellau data cyson gynhwysfawr, gadarn ac ymatebol sy'n darparu gwybodaeth am y farchnad lafur yn golygu bod cynllunio effeithlon a rhag-weld anghenion economaidd a chyflogwyr yn heriol.

- Nid yw AHG mewn rhai sectorau bob amser yn ddigon hyblyg i gyd-fynd ag economi ac anghenion sgiliau cyflogwyr sy'n newid yn gyflym.

- Bydd diweddaru 'Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau', cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau a gyhoeddwyd yn 2022, yn allweddol i gefnogi'r gwaith o ddylunio a darparu AHG sy'n bodloni gofynion y gweithlu yn y dyfodol.

- Dangosodd Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2024 fod cyflogwyr mwy yn gyffredinol yn fwy tebygol o gynllunio ar gyfer prentisiaethau a'u cynnig o'u cymharu â busnesau bach. Ar ben hynny, syrthiodd cyfran y cyflogwyr yng Nghymru sy'n bwriadu cynnig prentisiaethau o 35% yn 2022 i 24% yn 2024, y gostyngiad mwyaf o blith gwledydd y DU.

## Camau a gymerwyd

- Mae Cymwysterau Cymru wedi cwblhau rhaglen o adolygiadau o'r sector cymwysterau. Mae'r rhain wedi nodi bylchau mewn cymwysterau ac wedi diweddaru cynnwys cymwysterau i fodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr mewn sectorau cyflogaeth penodol. Drwy Adolygiadau o'r Fframwaith Prentisiaethau, mae Medr yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i sicrhau bod eu rhaglenni presennol yn adlewyrchu'r galw presennol am sgiliau a'r galw sy'n dod i'r amlwg am sgiliau. Drwy'r rhaglenni gwaith hyn, mae AHG yng Nghymru cyd-fynd mwy a mwy ag anghenion newidiol y diwydiant a blaenoriaethau economaidd cenedlaethol.

- Mae Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Brentisiaethau yn nodi ffocws clir ar wydnwch, cynaliadwyedd, lleihau prinder sgiliau, a hybu cynhwysiant. Ers mis Medi 2024, mae Medr wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros bolisi gweithredol, rheoli contractau a pherfformiad cyflawni prentisiaethau, gan drosi'r cyfeiriad strategol hwn yn gamau gweithredu ymarferol ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach. Mae Rhaglen Brentisiaethau Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei tharged o dros 100,000 o gyfleoedd prentisiaeth wedi'u hariannu'n llawn ers 2020/21, ac mae wedi cyflawni dros 200,000 ers 2016.

- Mae Medr yn hybu dulliau hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr i adeiladu system drydyddol integredig sy'n cyflenwi dysgwyr â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt mewn economi sy'n newid yn gyflym. Mae hyn yn cynnwys treialu mentrau arloesol fel micro-gymwysterau a chyrsiau byr sydd wedi'u cynllunio i gefnogi uwchsgilio ac ailsgilio. Mae'r treialon hyn yn canolbwyntio ar sectorau â blaenoriaeth, gan gynnwys technolegau digidol, gweithgynhyrchu uwch, a diwydiannau gwyrdd sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau Sero Net Cymru. Nod y dulliau hyn yw creu llwybrau sy'n caniatáu i ddysgwyr addasu'n gyflym i ofynion y farchnad lafur sy'n dod i'r amlwg.

- Mae Gyrfa Cymru'n rhoi darlun o anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol drwy gyfres o adroddiadau ar y farchnad lafur ac ar wybodaeth gan fyfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys; Bwletinau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur, Adroddiadau Erthygl Gwybodaeth am y Farchnad Lafur sy'n benodol i sectorau, adroddiadau rhanbarthol sy'n cefnogi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddeall diddordebau ac ymgysylltiad galwedigaethol pobl ifanc, yn ogystal ag adroddiadau data ysgolion unigol. Mae'r rhain wedi'u hategu gan adnoddau Swyddi Dyfodol Cymru, data cyrchfannau blynyddol cadarn, a gwybodaeth o arolygon Gwirio Gyrfa ysgolion.

- Mae dod â diwydiant, addysg a hyfforddiant at ei gilydd i gysoni blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol a helpu pobl ifanc i gamu ymlaen i yrfaoedd boddhaus sy'n cefnogi twf eisoes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae enghreifftiau o'r cydweithio hwn i'w gweld yn lansiad diweddar Uwchgynhadledd Sgiliau Gogledd Cymru ac Addewid Abertawe, ymysg pethau eraill.

## Camau nesaf

Mae tyfu ein heconomi drwy system AHG sy'n edrych tua'r dyfodol yn hanfodol er mwyn i Gymru ffynnu mewn tirwedd fyd-eang sy'n fwy a mwy cystadleuol a deinamig. Gan weithio gyda'r sector trydyddol a busnesau, gallwn wreiddio ystwythder, cydweithio ac arloesi wrth galon AHG, a gallwn sicrhau bod dysgwyr yn cael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer diwydiannau sy'n dod i'r amlwg a thwf cynaliadwy.

- Dylai AHG barhau i gynyddu ei gysondeb â Chenhadaeth Economaidd Cymru a rhaglenni twf rhanbarthol, gan gynnwys Bargeinion Dinesig a Thwf, Parthau Buddsoddi, a Bargeinion Twf Lleol. Mae cyflawni hyn yn gofyn am gydweithio cryf rhwng y llywodraeth, Medr, cyrff rhanbarthol, cyflogwyr a darparwyr addysg i greu system gydlynol.
- Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru'n lansio Archwiliad Sgiliau Cenedlaethol i asesu'r dirwedd sgiliau yng Nghymru. Bydd yr archwiliad yn cyfuno data presennol â gwybodaeth rhanddeiliaid i nodi blaenoriaethau sgiliau nawr ac yn y dyfodol sy'n cyd-fynd â galwedigaethau a sectorau allweddol y diwydiant. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi cynllunio strategol, yn gwella effeithlonrwydd buddsoddiad cyhoeddus, yn lleihau diffyg cyfatebiaeth yn y farchnad lafur, ac yn gwella cynhyrchiant.
- Mae Medr yn cydweithio'n agos â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i dreialu methodolegau i ddeall ymhellach gofynion y gweithlu yn y dyfodol mewn sectorau galwedigaethol allweddol, fel adeiladu, yn enwedig mewn perthynas â phrinder sgiliau, bylchau a heriau sy'n dod i'r amlwg. Bydd y dadansoddiad hwn yn llywio'r gwaith o nodi a mapio galwedigaethau blaenoriaethol ar lefel ranbarthol yn erbyn cynlluniau darpariaeth drydyddol.
- Mae llais cyflogwyr yn hanfodol wrth ddylunio system AHG sy'n gallu ymateb i anghenion newidiol diwydiannau ac economi Cymru. Er bod arferion da ar draws y sector o ran cysylltu â chyflogwyr i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r cwricwlwm, mae angen dull system gyfan ar gyfer cynnwys cyflogwyr ar bob cam.
- Dylai llwybrau galwedigaethol fod yn fwy ystwyth i gyd-fynd ag anghenion y farchnad lafur fel y maent yn newid. Bydd gwreiddio gwybodaeth am y farchnad lafur ac adnoddau rhagfynegi wrth gynllunio'r cwricwlwm yn helpu i rag-weld swyddi newydd.
- Bydd ehangu cyfleoedd ar gyfer dysgu rhan-amser, hyblyg a chymwysterau modiwlaidd yn galluogi dysgwyr i uwchsgilio ac ailsgilio drwy gydol eu gyrfaoedd, a throsglwyddo sgiliau ar draws sectorau. Cyrsiau byr, darpariaeth fodiwlaidd a dysgu galwedigaethol rhan-amser yw'r cam cyntaf yn aml i oedolion sy'n dysgu.
- Dylai'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm AHG gael ei lywio gan ddata cynhwysfawr o ansawdd uchel i ganfod bylchau sgiliau a chadw golwg ar ganlyniadau dysgwyr. Dylai Cymru ddysgu o'r arferion gorau rhyngwladol a dull sy'n cael ei arwain gan randdeiliaid, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb i anghenion cyflogwyr a dyheadau dysgwyr.
- Gan adeiladu ar yr uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun AI i Gymru Llywodraeth Cymru, bydd angen i AHG wreiddio AI a sgiliau digidol ar draws pob rhaglen. Bydd y dull hwn yn paratoi dysgwyr ar gyfer gofynion y diwydiant yn y dyfodol, yn cefnogi twf economaidd



## **Blaenoriaeth Genedlaethol Dau:** Gwneud Pethau'n Gliriach

***I wneud llwybrau galwedigaethol yn fwy clir drwy gael gwared ar rwystrau sy'n cyfyngu ar fynediad dysgwyr at gyngor ac arweiniad diduedd, gan alluogi dewisiadau hyderus ar sail gwybodaeth, a hybu cydraddoldeb rhwng llwybrau galwedigaethol a llwybrau academaidd.***

### Pam mae 'Gwneud Pethau'n Gliriach' yn Flaenoriaeth i AHG yng Nghymru?

Dylai pob dysgwr gael cyfle i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am ei ddyfodol. Gall y penderfyniadau hyn fod yn frawychus, yn enwedig i bobl ifanc ar adegau pontio ac i oedolion sy'n dychwelyd i addysg neu hyfforddiant. Yn rhy aml o lawer, prin yw'r ymwybyddiaeth o'r ystod lawn o gyfleoedd galwedigaethol. Mae gwneud llwybrau galwedigaethol yn fwy amlwg yn golygu nid yn unig cynyddu ymwybyddiaeth o'r llwybrau sydd ar gael, ond hefyd herio canfyddiadau hirsefydlog bod llwybrau galwedigaethol yn 'llai eu bri' na rhai academaidd.

Rhaid i bawb sy'n cefnogi dysgwyr yn ystod cyfnodau pontio, gan gynnwys rhieni, gofalwyr, athrawon a chynghorwyr, gael mynediad at wybodaeth o ansawdd uchel sy'n cydnabod gwerth, statws a hyblygrwydd cyfleoedd dilyniant cyfartal llwybrau galwedigaethol a llwybrau academaidd. Bydd ymweliadau â lleoliadau trydyddol yn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ynghylch camu ymlaen, ac i gynllunio llwybrau dysgu yn unol â'u dyheadau.

Mae ymchwil yn dangos bod dysgwyr gan amlaf yn gofyn am gyngor gan staff yr ysgol wrth ystyried opsiynau ôl-16. Yn yr un modd, mae rhieni a gofalwyr yn dal yn chwarae rôl allweddol mewn penderfyniadau pobl ifanc am eu dyfodol; mae eu dealltwriaeth o hygrededd a chydraddoldeb llwybrau galwedigaethol yn hanfodol i helpu dysgwyr i ddewis llwybrau.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynorthwyo oedolion drwy gynnig gwybodaeth ddwyieithog, hygyrch am yrfaoedd, Canolfan Dysgu Oedolion bwrpasol, ac adnodd Chwilio am Gwrs i helpu i archwilio'r ddarpariaeth ledled Cymru. Mae llwybrau dysgu oedolion yn fwyaf amlwg drwy ddarpariaeth gymunedol, cyflogwyr, y sector gwirfoddol, a llwyfannau gwybodaeth ddigidol.

### Heriau

- Mae'n bosibl y bydd dysgwyr a rhieni yn credu bod gwerth llwybrau galwedigaethol a llwybrau academaidd yn wahanol, er bod y ddau yn cynnig llwybrau cryf at ddysgu lefel uwch, uwchsgilio a byd gwaith. Gall canfyddiadau o ddiffyg cydraddoldeb rhwng llwybrau gyfyngu ar ddewisiadau ar sail gwybodaeth ac ar ddyheadau dysgwyr. Mae'r camsyniad hwn yn anwybyddu'r realiti bod llawer o lwybrau yn cyfuno astudiaethau academaidd ag elfennau galwedigaethol.

- Yn aml, nid oes gan ddysgwyr, rhieni, gofalwyr, staff ysgol na chynghorwyr ddealltwriaeth o sectorau twf a'r sgiliau fydd eu hangen yn economi'r dyfodol. Gall hyn gyfyngu ar eu gallu i ddarparu arweiniad diduedd, cyfredol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

- Mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn gallu wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at ysgolion i roi gwybod i ddysgwyr am lwybrau galwedigaethol. Gall y diffyg amlygrwydd hwn olygu bod dysgwyr yn gwneud dewisiadau nad ydynt yn cyd-fynd â'u sgiliau a'u dyheadau.

- Mae nifer fach o ysgolion yn parhau i osod cyfyngiadau ar fynediad Gyrfa Cymru at ddysgwyr. Mae Gyrfa Cymru'n gweithio'n frwd i newid hyn er mwyn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn cael arweiniad gyrfaoedd amserol o ansawdd uchel.

- Gallai cynigion ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Addysg a Sgiliau Ôl-16 i ddisodli'r ystod bresennol o gymwysterau galwedigaethol Lefel 3 yn Lloegr â Lefel V – un llwybr ochr yn ochr â Lefel T a Lefel A – arwain at oblygiadau i Gymru. Efallai y bydd effaith ar lawer o gymwysterau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru ar hyn o bryd, fel cymwysterau BTEC Cenedlaethol a rhai Cambridge Technicals, os bydd cyrff dyfarnu yn eu tynnu o'r farchnad.

## Camau a gymerwyd

- Mae Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith yn thema drawsbynciol yn ein cwricwlwm, a fydd yn cael ei chyflwyno'n llawn erbyn mis Medi 2026. Mae hyn wedi'i wreiddio drwy gydol addysg dysgwr, o 3 oed i 16 oed. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn meithrin profiadau gwerthfawr ac yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn cyd-destunau ysbrydoledig yn y byd go iawn.

- Mae Hawl i Ddysgu 14 i 16 Llywodraeth Cymru a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi disgwyliad y dylai dysgwyr gael cyfle i ystyried eu dewisiadau a'u cynlluniau gyrfa ôl-16 gydag amser penodol i asesu eu cryfderau eu hunain, a meysydd i'w gwella.

- Mae Gyrfa Cymru'n sicrhau bod pob person ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael cynnig cyfweliad arweiniad gyrfa cyn gadael Blwyddyn 11 ac mae'n darparu rhywfaint o gymorth wedi'i dargedu, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth ddiduedd i ddysgwyr am bob llwybr ôl-16.

- Mae Teithiau Dysgwyr Cymwysterau Cymru yn fapiau clir sy'n benodol i sectorau ac sy'n dangos y cymwysterau a'r llwybrau dilyniant sydd ar gael mewn meysydd galwedigaethol. Mae'r adnoddau hyn wedi cryfhau canllawiau drwy godi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ysgolion o'r ystod lawn o opsiynau AHG a sut maent yn cysylltu â gyrfaoedd yn y dyfodol.

- Mae Medr yn darparu cyllid pontio i annog cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r holl lwybrau dysgu sydd ar gael cyn i ddysgwyr wneud penderfyniad am eu cyrchfan ôl-16.

- Mae'r prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn hyrwyddo addysg alwedigaethol a datblygu sgiliau drwy gystadlaethau a phartneriaethau cydweithredol. Mae'r prosiect yn hwyluso'r broses o ddatblygu sgiliau technegol a chyflogadwyedd sy'n cyd-fynd ag anghenion y diwydiant, ac mae'n codi proffil, ansawdd ac effaith sgiliau ac addysg galwedigaethol ledled Cymru.

## Camau nesaf

Mae'r cynlluniau presennol yn dangos ymrwymiad clir ar draws y sector i sicrhau bod dysgwyr, rhieni a darparwyr yn gallu cael gafael yn well ar gyngor am werth llwybrau galwedigaethol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru a Medr barhau i ystyried cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth er mwyn galluogi pob dysgwr i wneud penderfyniadau hyderus, ar sail gwybodaeth am eu dyfodol.

- Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 i gynnwys gofynion penodol bod cynrychiolwyr colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phrifysgolion yn cael mynediad at ddysgwyr i roi gwybod iddynt am y cyfleoedd sydd ar gael ym myd gwaith, addysg bellach neu addysg uwch ôl-16.

- O fis Medi 2027 ymlaen, bydd cyflwyno mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol yn gwella ymwybyddiaeth o lwybrau galwedigaethol a sectorau byd gwaith ar gyfer dysgwyr 14 i 16. Er eu bod wedi'u cynllunio i'w darparu mewn ysgolion, mae eu cyflwyno'n rhoi cyfle i ysgolion a cholegau gydweithio i ddarparu dysgu galwedigaethol diddorol.

- Bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a'r sector i asesu bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno Lefelau V a T, a'u heffaith bosibl ar ddysgwyr Cymru. Rhaid inni flaenoriaethu sicrhau nad yw dysgwyr Cymraeg dan anfantais. Byddwn yn cydweithio â Cymwysterau Cymru a chyrff dyfarnu i ddiogelu dewis a dilyniant i ddysgwyr yng Nghymru, gan barhau i sicrhau cynnig galwedigaethol eang o ansawdd uchel yng Nghymru.

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i archwilio'r gwersi a ddysgwyd yn sgil cyflwyno Cymal Baker yn Lloegr. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn mynnu bod ysgolion yn caniatáu i golegau a darparwyr hyfforddiant siarad â disgyblion ym Mlynyddoedd 8 i 13 i hyrwyddo llwybrau technegol a galwedigaethol ochr yn ochr ag opsiynau academaidd.

- Byddai cyhoeddi data cyrchfannau ar gyfer dysgwyr sy'n camu ymlaen i gyrsiau galwedigaethol ôl-16, yn ogystal â chryfhau'r cyfarwyddyd i ysgolion ar helpu dysgwyr i gamu ymlaen i gyrsiau galwedigaethol ôl-16 addas, yn gwneud y llwybrau dysgwyr hyn yn fwy gweladwy ac yn helpu rhieni a dysgwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Er mwyn sicrhau'r manteision hyn, dylai Llywodraeth Cymru edrych ar opsiynau i gyhoeddi'r data hwn er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr a rhieni am lwybrau galwedigaethol.

- Mae Academi Seren yn ehangu ei chynnig drwy archwilio llwybrau i brentisiaethau gradd, gan helpu i ennyn diddordeb ymysg dysgwyr mwyaf disglair Cymru mewn llwybrau galwedigaethol addysg uwch a darparu'r wybodaeth fanwl sydd ei hangen arnynt i ystyried eu hopsiynau'n hyderus ac yn gystadleuol.

- Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei disgwyliadau ar gyfer llwybrau galwedigaethol 14-16 Cymru gyfan, gan gynnwys nodi sut mae darpariaeth fel Prentisiaethau Iau, addysg cyn-16 arall mewn colegau, a dylid cyflwyno mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel sy'n gydradd â llwybrau academaidd.



**Blaenoriaeth Genedlaethol Tri:** Cymryd Rhan a Chamu Ymlaen

***I helpu dysgwyr o bob oed – ble bynnag maen nhw'n byw a beth bynnag fo'u cefndir – i ddatblygu'r hyder sydd ei angen arnynt i gymryd rhan yn y sector addysg drydyddol a thu hwnt, a chamu ymlaen drwy'r sector hwnnw.***

## Pam mae 'Cymryd Rhan a Chamu Ymlaen' yn Flaenoriaeth i AHG yng Nghymru?

Mae gwella cyfranogiad ôl-16 yn rhan ganolog o weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru decach a mwy ffyniannus. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn hollbwysig i greu system AHG sy'n helpu pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, i ffynnu.

Dylai pawb gael cyfle i gymryd rhan mewn llwybrau galwedigaethol, camu ymlaen ynddynt a'u cwblhau er mwyn ennill sgiliau lefel uwch, a chyfrannu at economi gryf a chynaliadwy. Carreg Filltir Genedlaethol Llywodraeth Cymru yw cael o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.

Mae'n bwysig codi proffil AHG tra bydd dysgwyr yn yr ysgol fel bod pob person ifanc yn deall yr ystod lawn o lwybrau o ansawdd uchel sydd ar gael iddynt. Nid yw llwybrau academaidd a galwedigaethol ar wahân nac yn annibynnol ar ei gilydd. Mae llawer o raglenni'n cyfuno dysgu academaidd a dysgu galwedigaethol, gan roi hyblygrwydd i ddysgwyr symud ymlaen yn hyderus rhwng llwybrau, gan gynnwys i addysg uwch.

Mae cyfranogiad a chynnydd oedolion sy'n dysgu yn aml yn aflinol ac yn rhan-amser. Mae galluogi unigolion i ailsgilio, uwchsgilio neu gymryd rhan mewn dysgu ar gyfer datblygiad personol yn creu gwerth cymdeithasol sylweddol, sydd o fudd i unigolion ac i gymunedau yn gyffredinol.

## Heriau

- Amcangyfrifir bod gan Gymru gyfran uwch o bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) na gwledydd eraill y DU, a lefelau cymwysterau is ymysg oedolion iau yn y gweithlu.

- Mae data'r blynyddoedd diwethaf a mwy yn dangos twf yn nifer y cofrestriadau ar gyrsiau galwedigaethol lefel 2 yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r twf hwn mewn llwybrau technegol a galwedigaethol drutach yn gysylltiedig â chostau uwch a mwy o broblemau o ran llety.  Mae dysgwyr lefel is yn fwy tebygol o roi'r gorau iddi, sy'n golygu bod cadw a chamu ymlaen i Lefel 3 (a thu hwnt) yn her allweddol.

- Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, bydd darparu cyfleoedd dysgu galwedigaethol rhan-amser a hyblyg hyd yn oed yn fwy hanfodol i alluogi ailsgilio ac uwchsgilio mewn economi sy'n newid.

- Mae ffactorau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys incwm aelwydydd, addysg rhieni, ochr yn ochr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn parhau i ddylanwadu ar gyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant, yn enwedig llwybrau galwedigaethol. Er bod llwybrau galwedigaethol yn denu amrywiaeth eang o ddysgwyr, mae'r rhai o gefndiroedd difreintiedig neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn aml yn wynebu rhwystrau systemig sy'n gallu effeithio ar gyrhaeddiad a dilyniant.

- Gall heriau trafnidiaeth rwystro mynediad at addysg alwedigaethol yn sylweddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell. Mae dewisiadau cyfyngedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus – yn enwedig gwasanaethau bws annibynadwy neu anaml – ynghyd â chostau teithio uchel yn aml yn atal dysgwyr rhag mynychu cyrsiau. Mae'r rhwystrau hyn yn cyfyngu ar gyfranogiad ac yn lleihau cyfleoedd i bobl ifanc ledled Cymru.

- Mae gan y DU (gan gynnwys Cymru) gyfran gymharol isel o weithwyr sydd â chymwysterau lefel uwch ar lefel is na lefel gradd (lefel 4 a 5) o'i gymharu ag economïau tebyg. Gallai cynyddu mynediad at gymwysterau lefel uwch nad ydynt yn radd a faint sy'n eu hennill, mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, fod yn ffordd ychwanegol a chost-effeithiol o wella lefelau addysg a sgiliau cyffredinol.

- Gall cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn gyfyngedig.  Rhaid i sefydliadau ddarparu ar gyfer dysgwyr â gwahanol lefelau o allu a rhuglder ar draws ystod eang iawn o bynciau, ac mae hyn wedi arwain at wahaniaethau yn y cynnig, yn enwedig ar draws llwybrau galwedigaethol. Mae prinder sgiliau Cymraeg mewn addysg drydyddol hefyd yn effeithio ar ddarpariaeth, gan greu rhwystrau i ddysgwyr sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i sectorau lle mae galw cynyddol am sgiliau dwyieithog, fel iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, addysg ac adeiladu.

## Camau a gymerwyd

- Mae Prentisiaethau Iau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio ac sydd â dawn ar gyfer dysgu galwedigaethol. Maent bellach yn cael eu cynnig mewn saith coleg ledled Cymru, gan helpu dysgwyr i feithrin sgiliau ymarferol ar gyfer y gweithle a pharatoi ar gyfer camu ymlaen i gyrsiau neu brentisiaethau galwedigaethol lefel uwch. Roedd adolygiad thematig Estyn ym mis Mai 2024 yn canmol y rhaglen ar gyfer meithrin brwdfrydedd ac uchelgais, ac yn tynnu sylw at faint o ddysgwyr sy'n mynd ymlaen i lwyddo yn eu hastudiaethau galwedigaethol.

- Roedd gan Gymru eisoes gyfran gymharol uchel o ddysgwyr ôl-16 yn y coleg ac yn dilyn llwybrau galwedigaethol neu gyffredinol cymhwysol cyn Covid-19, ac mae hyn yn tyfu eto – yn sylweddol – ar ôl gostyngiad byr yn ystod y pandemig. Mae'r canllawiau ar gwricwla lleol 16 i 18', sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2026, yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi bod dysgwyr yn cael mynediad at amrywiaeth briodol o gyrsiau galwedigaethol ar lefel 3 ac is.

- Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid yn helpu pobl ifanc yng Nghymru i gadw mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant, gan gynnwys llwybrau galwedigaethol. Drwy nodi'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio'n gynnar a darparu cymorth wedi'i deilwra, mae'n sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar opsiynau ymarferol sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a'u huchelgeisiau, gan hybu cyfranogiad a dilyniant.

- Mae gofal bugeiliol yn y sector Addysg Bellach wedi cael ei gryfhau drwy amrywiaeth o fodelau sydd wedi'u llunio gan gyllid ac arweiniad Medr, sy'n gosod disgwyliadau cyson ar gyfer cymorth i ddysgwyr ar draws darparwyr. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cymorth cofleidiol sy'n galluogi dysgwyr i oresgyn rhwystrau, parhau i ymgysylltu, a symud ymlaen yn llwyddiannus drwy eu hastudiaethau. Yn 2024/25, cafodd £4 miliwn ei ddyrannu i fentrau Iechyd Meddwl a Llesiant, gan wella'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr a staff ymhellach.

- Mae'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yn helpu pobl o bob oed i ailsgilio, addasu ac ailadeiladu eu dyfodol. Mae'r rhaglen hon yn enghraifft o sut mae Llywodraeth Cymru, drwy Medr, yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid i helpu dysgwyr ledled Cymru i ailhyfforddi neu uwchsgilio, gan agor drysau i yrfaoedd na fyddai pobl erioed wedi meddwl amdanynt efallai. Darparwyd bron i 50,000 o gyrsiau Cyfrifon Dysgu Personol rhwng 2021/22 a 2023/24, gyda £79m o wariant Llywodraeth Cymru yn gefn iddynt.

- Nod Llywodraeth Cymru wrth ddiwygio'r system anghenion dysgu ychwanegol yw creu system addysg deg, gynhwysol ac unedig sy'n cefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed, yn benodol o ran sicrhau parhad cymorth yn ystod cyfnodau pontio allweddol, gan gynnwys i lwybrau galwedigaethol.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi gostwng trothwy incwm aelwydydd ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, gan roi cymorth ariannol i 3,500 o fyfyrwyr ychwanegol yn ôl y disgwyl, gan gynnwys helpu myfyrwyr cymwys gyda chostau cludiant.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi £22m rhwng 2024 a 2026 ar gyfer cynllun tocynnau bws peilot i bobl ifanc o dan 21 oed, sy'n darparu tocynnau unffordd am £1 a thocynnau diwrnod am £3 wrth deithio gyda gweithredwyr sy'n cymryd rhan.

- Mae gan Medr ddyletswydd statudol i hybu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg ac mae wedi gwreiddio'r uchelgais hon yn ei Gynllun Strategol. Gan weithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill, mae Medr yn datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws addysg drydyddol. Bydd hyn yn adeiladu ar fentrau presennol sy'n cefnogi capasiti darparwyr, ac yn creu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg mewn addysg ac yn y gweithle.

## Camau nesaf

Dylai ymrwymiad Cymru i gynyddu cyfranogiad mewn AHG fod yn seiliedig ar weledigaeth o dwf economaidd cynhwysol, symudedd cymdeithasol a llesiant cenedlaethol. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae angen polisi a buddsoddiad cryf, a mynd i'r afael â rhwystrau parhaus – trafnidiaeth, anghydraddoldeb, pwysau ariannol, iechyd meddwl, cwblhau, darnio sefydliadol, a bylchau data.

- Mae Galwad am Gyflwyniadau wedi cael ei lansio i fynd i'r afael â heriau allweddol mewn addysg drydyddol, gan ddechrau gyda chyfranogiad a chynaliadwyedd. Mae'r her gyntaf yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad ar draws yr holl lwybrau ôl-16, gan gynnwys llwybrau galwedigaethol, sy'n hanfodol i adeiladu gweithlu mwy medrus a sbarduno cynhyrchiant, twf economaidd a llesiant cymdeithasol.

- Mae gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot ar gyfer rhoi terfyn o £1 ar docynnau sengl/£3 ar docynnau diwrnod yn yr arfaeth. Bydd yn ystyried yn benodol ei effaith ar fynediad pobl ifanc at addysg a hyfforddiant ôl-16.

- Mae sawl llinyn dadansoddi'n cael eu dwyn ynghyd – gan gynnwys ymchwil gymdeithasol, cysylltu data, ac adolygiadau tystiolaeth systematig – i adeiladu sylfaen dystiolaeth gronnus ar y prif benderfynyddion a thueddiadau sy'n siapio cyfranogiad, dilyniant a diffyg dilyniant yng Nghymru. Mae Medr hefyd yn gweithio i ddeall cyrchfannau dysgwyr ôl-16 ac ôl-18 yn well, a fydd yn helpu i nodi materion penodol sy'n ymwneud â bylchau cyfranogiad.

- Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Medr a phartneriaid addysg bellach i ehangu Prentisiaethau Iau, gan sicrhau eu bod ar gael i fwy o ddysgwyr ledled Cymru. Mae cyllideb 2026/27 yn cynnwys £1 miliwn ar gyfer y rhaglen – mwy na dwbl y dyraniad ar gyfer 2024/25.

- Yn unol â'n huchelgais na ddylai unrhyw un yng Nghymru fyth roi'r gorau i ddysgu, dylai Llywodraeth Cymru barhau i adeiladu system alwedigaethol lle mae dysgu i bawb ac nad yw dychwelyd i addysg byth yn ail gyfle, ond yn gam cyntaf at ddyfodol mwy disglair. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn i ddysgu gydol oes, dylai Llywodraeth Cymru hefyd archwilio sut y gall AHG gyfrannu at wella sgiliau sylfaenol oedolion.



**Blaenoriaeth Genedlaethol Pedwar:** Partneriaethau Cryf

***I gefnogi partneriaethau cryf rhwng awdurdodau lleol, darparwyr addysg a chyflogwyr. Dylai cydweithio a phartneriaeth strategol roi anghenion dysgwyr wrth galon gwaith cynllunio a darparu.***

## Pam mae 'Partneriaethau Cryf' yn Flaenoriaeth i AHG yng Nghymru?

Mae Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn adlewyrchu ein gwerthoedd cyffredin wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n creu'r canlyniadau gorau posib i bobl Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar wneud dinasyddion yn rhan ganolog o'n hymdrechion ar y cyd, nid buddiannau ein sefydliadau unigol ein hunain.

Mae cydweithio aml-lefel effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru, darparwyr addysg a chyflogwyr yn hanfodol er mwyn darparu AHG o ansawdd uchel yng Nghymru. Mae partneriaethau cryf rhwng ysgolion lleol, y sector trydyddol a chyflogwyr yn cefnogi'r gwaith o ddarparu cyrsiau galwedigaethol a llwybrau prentisiaeth o ansawdd uchel. Mae partneriaethau rhanbarthol yn helpu i gysoni cyrsiau ag anghenion y farchnad lafur ac yn hybu llwybrau galwedigaethol a phrentisiaethau fel opsiynau gwerthfawr.

Mae dysgu oedolion a'r gymuned yn cael ei gefnogi gan bartneriaethau lleol effeithiol, gan gynnwys y trydydd sector, a gall hyn fod yn drawsnewidiol - gan wella sgiliau a llesiant unigolion. Gall y partneriaethau lleol hyn chwarae rhan gydlynol allweddol ar draws gwasanaethau addysg, cyflogadwyedd, iechyd a chymunedol.

Mae dull partneriaeth gymdeithasol o fewn sefydliadau, sy'n galluogi cynrychiolwyr undebau llafur i ymgynghori a negodi'n ystyrlon, yn meithrin parch a chydweithrediad rhwng rheolwyr a staff.

## Heriau

- Gall y trefniadau cyllido ôl-16 presennol greu heriau o ran cydweithio rhwng ysgolion a'r sector trydyddol. Mae mynd i'r afael ag effeithiau cystadleuaeth am gyllid yn hollbwysig i sicrhau bod ymdrechion ar y cyd yn canolbwyntio ar ddarparu'r cyfleoedd gorau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

- Er yr ymdrech sylweddol mewn nifer o ardaloedd, mae gweithio mewn partneriaeth o fewn AHG yng Nghymru yn parhau i fod yn anghyson ar draws rhanbarthau. Mae cydweithio rhwng ysgolion, y sector trydyddol a chyflogwyr yn amrywio'n sylweddol, gan greu tirwedd ddarniog.

- Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn darparu fframwaith statudol ar gyfer cydweithio rhanbarthol, ond mae gweithredu parhaus yn dal yn her. Bydd cysoni Cyd-bwyllgorau Corfforedig â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r sector trydyddol yn sicrhau bod penderfyniadau cydgysylltiedig yn cael eu gwneud ar ddatblygu economaidd a buddsoddi mewn sgiliau.

## Camau a gymerwyd

- Sefydlodd Llywodraeth Cymru Medr ym mis Awst 2024 gyda blaenoriaeth allweddol i fynd i'r afael â darnio a chryfhau gweithio mewn partneriaeth yn y sector trydyddol. Fel un corff integredig, mae Medr yn goruchwylio chweched dosbarth ysgolion, addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a dysgu oedolion o dan un corff. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys lleihau dyblygu a chystadleuaeth, cysoni cyllid yn agosach ag anghenion Cymru, a meithrin cydweithio rhwng ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr. Mae'r dull unedig hwn yn darparu llwyfan ar gyfer dysgu galwedigaethol mwy cydlynol ledled Cymru.

- Mae gan Medr ddyletswydd statudol i hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur. Mae Cynllun Strategol Medr yn cynnwys ymrwymiad i hyrwyddo partneriaeth gymdeithasol yn weithredol i gydnabod bod cydweithio rhwng darparwyr ac undebau llafur o fudd i'r naill ochr a'r llall.

- Mae Cronfa Datblygu Strategol Medr yn darparu £5 miliwn i brosiectau newydd a fydd yn cryfhau'r cydweithio rhwng sefydliadau ar draws y sector addysg drydyddol. Bydd hyn yn galluogi Medr i gasglu gwybodaeth gan y sector am y mathau o brosiectau a allai fod yn bosib gyda buddsoddiad strategol.

- Mae ymgysylltu â chyflogwyr a phrofiad gwaith wedi dod i'r amlwg fel meysydd arloesi. Mae llawer o sefydliadau addysg bellach yn cydweithio â chyflogwyr lleol i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr. Mae rhaglenni wedi'u targedu fel Profiad Gwaith wedi'i Deilwra Gyrfa Cymru hefyd wedi dangos llwyddiant o ran cysylltu dysgwyr â chyfleoedd yn y byd go iawn.

## Camau nesaf

Mae partneriaethau effeithiol yn hanfodol i sicrhau bod addysg alwedigaethol yn cyd-fynd â'r economi sy'n datblygu yng Nghymru. Drwy feithrin cydweithio dwfn a hyblyg rhwng ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr, gall Cymru greu system sy'n ystwyth, yn ymateb i anghenion y farchnad lafur, ac yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr a chymunedau.

- Bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i edrych ar gyfleoedd i gefnogi a chymell cydweithio cryfach yn lleol ac yn rhanbarthol rhwng ysgolion, colegau, prifysgolion, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a chyflogwyr.

- Fel y nodwyd yn gynharach yn y Cyfeiriad Strategol hwn ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried diwygio'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 a'r Canllawiau i hybu ac egluro'r disgwyliadau ar gyfer mwy o gydweithio rhwng ysgolion a'r sector trydyddol.

- Mae angen egluro disgwyliadau o ran sut bydd trefniadau rhanbarthol – fel Cyd-bwyllgorau Corfforedig a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol – yn cyd-fynd â'r sector trydyddol i ddarparu dull strategol a chyson o gynllunio sgiliau a datblygu economaidd rhanbarthol.

- Mae cyfle i wneud mwy i rannu'r arferion gorau o'r enghreifftiau pwerus o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd sefydliadau'n cydweithio. Mae enghreifftiau'n cynnwys Ymrwymiad Caerdydd, sydd wedi uno dros 400 o sefydliadau mewn cenhadaeth gyffredin i wella canlyniadau addysgol a chyflogaeth i bobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, a phrosiect ynni Glas a Gwyrdd Sir Benfro sy'n cynnwys cydweithio rhwng y coleg, ysgolion a'r diwydiant.

- Byddai adolygiad o drefniadau llywodraethu mewnol ar draws Llywodraeth Cymru yn sicrhau cydlyniad polisi a chysondeb â blaenoriaethau addysg, sgiliau ac economaidd ehangach.



**Blaenoriaeth Genedlaethol Pump:** Cefnogi Addysgwyr a Darparwyr Hyfforddiant

***I sicrhau bod addysgwyr a darparwyr hyfforddiant yn cael cyfle i uwchsgilio yn unol â gofynion newidiol y gweithlu ac anghenion sgiliau yn y dyfodol i alluogi dysgwyr galwedigaethol i ddatblygu'r wybodaeth ddamcaniaethol a'r sgiliau ymarferol diweddaraf.***

## Pam mae 'Cefnogi Addysgwyr a Darparwyr Hyfforddiant' yn flaenoriaeth ar gyfer AHG yng Nghymru?

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu AHG o ansawdd uchel a sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr, rhaid i addysgwyr a darparwyr hyfforddiant gael cyfleoedd i uwchsgilio ac ailsgilio yn unol â gofynion newidiol y gweithlu ac anghenion sgiliau yn y dyfodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau sectoraidd ac addysgegol, gan alluogi dysgwyr i feddu ar y wybodaeth ddamcaniaethol a'r sgiliau ymarferol diweddaraf.

I gyflawni hyn, rhaid parchu addysgwyr galwedigaethol eu hunain yn y sector a chael cyfleoedd i uwchsgilio ac ailsgilio, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau sectoraidd ac addysgegol.

Mae Cynllun Strategol Medr 2025-2030 a'r Cynllun Gweithredu Cymraeg 2050 yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithlu dwyieithog, cynhwysol ac amrywiol. Mae'r uchelgais i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac i ymgorffori sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu, yn tanlinellu ymhellach yr angen am ddatblygiad proffesiynol wedi'i dargedu a chymorth i addysgwyr.

## Heriau

- Mae denu a chadw addysgwyr mewn meysydd lle mae'r galw'n uchel fel peirianneg, digidol, adeiladu a gweithgynhyrchu uwch yn heriol, gan fod y diwydiannau hyn yn aml yn cynnig cyflogau mwy cystadleuol a mwy o hyblygrwydd. Mae'r prinder hwn yn lleihau capasiti addysgu arbenigol a gall effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth.

- Mae cyllidebau heriol a thirwedd sy'n newid yn gyflym, gan gynnwys diwygio cymwysterau a nifer cynyddol o ddysgwyr sydd angen cymorth, yn rhoi pwysau sylweddol ar y gweithlu.

- Mae athrawon galwedigaethol yn aml yn dod o gefndiroedd diwydiannol yn hytrach nag academaidd, a gallant ei chael hi'n anodd addasu i amgylcheddau addysgol neu gael mynediad at ofynion hyfforddiant proffesiynol. Er bod mentrau fel y Gronfa Dysgu Proffesiynol yn helpu i gael gwared ar rwystrau o ran costau, mae dod o hyd i amser ar gyfer datblygiad proffesiynol yn parhau i fod yn anhawster sylweddol.

- Bydd cyflwyno'r Cymwysterau Cenedlaethol Gwneud-i-Gymru newydd, gan gynnwys cyflwyno mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol a'r Gyfres Sgiliau o fis Medi 2027 ymlaen yn ei gwneud hi'n ofynnol i addysgwyr allu darparu cyrsiau newydd yn hyderus.

- Mae angen sgiliau Cymraeg cryf ar addysgwyr, gan gynnwys y rhai yn y sector galwedigaethol, i gefnogi system AHG wirioneddol ddwyieithog yng Nghymru. Wrth i'r disgwyliadau ynghylch darpariaeth ddwyieithog gynyddu, ac wrth i gymwysterau Gwneud-i-Gymru ehangu, rhaid i staff gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol o ansawdd uchel sy'n meithrin rhuglder a hyder. Dylai hyn gynnwys strategaethau ymarferol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth addysgu, ochr yn ochr ag adnoddau penodol i sector sy'n helpu addysgwyr i wreiddio'r iaith yn naturiol mewn cyd-destunau galwedigaethol.

## Camau a gymerwyd

- Roedd creu'r Grŵp Cynghori Arbenigol ar Addysg Gychwynnol i Athrawon ar gyfer y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ym mis Mai 2025 yn gam sylweddol ymlaen o ran cryfhau cydweithio ar draws y sector. Gan ddod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd – gan gynnwys undebau llafur, Medr, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a Colegau Cymru – mae'r grŵp wrthi'n adolygu'r sefyllfa weithredol ac yn nodi atebion ar gyfer darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn y dyfodol.

- Mae gwaith yn cael ei wneud i gryfhau prosesau recriwtio a chadw staff ar draws y sector. Mae hyn yn cynnwys adolygu cymhellion ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, cysoni cwricwla hyfforddi athrawon yn genedlaethol, a datblygu modelau cynefino a mentora cadarn i gefnogi staff sydd newydd gymhwyso.

- Mae Gyrfa Cymru'n cynnig cymorth i ymarferwyr, gan gynnwys cwrs Arweinyddiaeth Gyrfaoedd Lefel 6, i wreiddio addysg gyrfaoedd ddiduedd ar draws eu cwricwlwm. Maent hefyd yn cynnig Gwobr Ansawdd i sefydliadau i sbarduno gwelliannau yn y ddarpariaeth gyrfaoedd, ac yn darparu gwybodaeth gyfredol am y farchnad lafur i lywio'r gwaith cynllunio. Mae eu Partneriaeth Addysg Busnes yn cysylltu addysgwyr â chyflogwyr, gan gysoni dysgu ag anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol.

- Yn 2024/25, darparwyd £2.8m ychwanegol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi rhaglen o grantiau datblygu ar gyfer colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau i ddatblygu capasiti addysg Gymraeg mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon a hamdden, ac astudiaethau ar y tir.

- Sefydlodd Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn cynllunio datblygiad y gweithlu addysg ac yn darparu cyfleoedd i ymarferwyr wella eu Cymraeg.  Bydd hyn yn newid sylweddol i'r cymorth sydd ar gael i ysgolion a'r system addysg ehangach.

## Camau nesaf

- Bydd gwreiddio arbenigedd diwydiant mewn addysg alwedigaethol yn flaenoriaeth i sicrhau bod dysgwyr yn ennill sgiliau ymarferol i fod yn barod am swydd. Mae hyn yn golygu cryfhau partneriaethau â chyflogwyr a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant i sicrhau bod yr addysgu a'r asesu'n adlewyrchu arferion presennol y gweithle, ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer gyrfaoedd modern.

- Dylai Datblygiad Personol Parhaus (DPP) fod yn hyblyg, er mwyn cydnabod yr heriau yn y gweithlu, gan gynnwys pwysau amser a newidiadau parhaus ehangach yn y dirwedd addysg. Dylai DPP hyblyg gynnwys cyfleoedd mewn perthynas ag uwchsgilio digidol a sgiliau Cymraeg.

- Mae datblygiad cyflym technolegau digidol yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer addysg alwedigaethol, ond mae hefyd yn creu heriau. Bydd hi'n bwysig archwilio sut gall arloesedd ac adnoddau sy'n dod i'r amlwg wella addysgu a dysgu, ochr yn ochr ag ystyried pa fuddsoddiad mewn seilwaith, datblygu staff ac addasu'r cwricwlwm y gallai fod ei angen i baratoi dysgwyr ar gyfer datblygiadau digidol yn y dyfodol.



## Y Camau Nesaf

Mae'r Cyfeiriad Strategol hwn ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol wedi'i ddylunio i ategu'r Alwad am Gyflwyniadau ar gyfranogiad a chynaliadwyedd addysg drydyddol, gan gynrychioli safbwyntiau'r sector a ffurfio is-set allweddol o'r adolygiad ehangach o addysg drydyddol.  Gyda'i gilydd byddant yn darparu tystiolaeth gadarn i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ganfyddiadau ei ymchwiliad i lwybrau i addysg a hyfforddiant ôl-16. Argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi strategaeth gyffredinol ar gyfer addysg ôl-16 sy'n rhoi sylw i lwybrau academaidd a llwybrau galwedigaethol.

Bydd y penderfyniad i lunio strategaeth drydyddol eang neu strategaeth AHG benodol yn cael ei lywio gan ganlyniadau'r alwad am gyflwyniadau, ond mae'r Cyfeiriad Strategol hwn ar gyfer AHG yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer y gwaith hwnnw.